
# EICH TAITH




## AT DDOD YN BAROD AR GYFER YR ARHOLIADAU

## CROESO I LEFEL 2

## GOFAL, CHWARAE, DYSGU, A DATLYGIAD PLANT (CRAIDD)

Mae'r cymhwyster yn ymdrin â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol o'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan newydd ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ac mae'n adlewyrchu amrywiaeth o wahanol rolau ac oedrannau.

---

## CYNLLUNIO YMLAEN...

Lluniwyd y cymhwyster ar gyfer dysgwyr ôl-16 yng Nghymru, sy'n gweithio neu sydd am weithio yn y canlynol:

- lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theuluoedd a phlant dan 8 oed
- gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed.

Mae hyn yn cynnwys lleoliadau iechyd plant.
Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer dysgwyr sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 1 neu nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol am y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Drwy gwblhau'r cymhwyster hwn bydd dysgwyr yn gallu:

- meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r egwyddorion a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i ymarfer gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- meithrin eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ffyrdd o weithio yn y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n llywio ymarfer effeithiol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- bod â gwybodaeth a dealltwriaeth graidd i'w cefnogi wrth symud ymlaen i astudio ymhellach neu gyflogaeth yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i ennill cymwysterau pellach gan gynnwys y cymwysterau canlynol sy'n rhan o'r gyfres o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant i Gymru

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.

# GWNEWCH EICH GORAU GLAS!

City & Guilds | cbac wjec

## AWGRYMIADAU

**Adolygu ar gyfer eich asesiadau allanol**

**Paratoi nodiadau adolygu o ansawdd da**

**Darllen y cwestiwn yn drylwyr**

**Mynychu pob gweithdy i ennill gwybodaeth** a dealltwriaeth yn barod ar gyfer eich asesiad allanol

**Defnyddio'r adnoddau rhyngweithiol sydd ar gael** ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru i'ch helpu chi i adolygu

## CANLLAWIAU LLESIANT

**Cymerwch gamau bach.**
Cofiwch mai taith yw hon a byddwch yn meithrin sgiliau a gwybodaeth ar hyd y ffordd.

**Cymerwch egwylion rheolaidd o adolygu.**
Gwnewch ymarfer corff, ewch i weld ffrindiau, treuliwch amser â'r teulu.

**Edrychwch ar ôl eich hun.**
Gwnewch yn siŵr bod eich deiet yn gytbwys a'ch bod yn cael digon o gwsg.

**Byddwch yn bositif.**
Hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo fel hynny, bydd agwedd bositif yn eich helpu chi.

**Cofiwch fod pawb yn wahanol.**
Ceisiwch beidio â chymharu eich hun ag eraill.

## SUT BYDDWCH CHI'N CAEL EICH ASESU?

**Caiff y cymhwyster ei asesu drwy asesiad allanol. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol**:

- un prawf dewis lluosog i'w osod a'i farcio'n allanol.

